



QWCC1-031\_17C

At: Swyddogion Cyfrifol

29/08/2017

## **Adolygiad o Amodau Cydnabod Safonol**

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnig cynnal adolygiad o'n Hamodau Cydnabod, gyda'r nod o wneud yr Amodau mor hygyrch â phosibl i gyrff dyfarnu a sicrhau eu bod yn ein galluogi fel y rheoleiddiwr i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio. Cafodd yr adolygiad hwn ei gefnogi gan gyrff dyfarnu a wnaeth gymryd rhan yn ein Prosiect Strategaeth Reoleiddio.

Gwnaeth y prosiect hefyd dynnu sylw at awydd cyrff dyfarnu i reoleiddwyr cymwysterau ledled y DU gydweithio er mwyn osgoi gwahaniaethau diangen o ran gofynion rheoleiddio. Gan gadw hyn mewn cof, rwy'n falch o gadarnhau y bydd Ofqual a CCEA (sef rheoleiddwyr cymwysterau, arholiadau ac asesiadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon) yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfodydd â chyrff dyfarnu sy'n dechrau ym mis Hydref. Er ein bod yn cydnabod na fydd hyn yn bosibl ym mhob achos, ein bwriad yw sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i Amodau wedi eu halinio gymaint â phosibl.

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar feysydd megis eglurder a natur ragnodol yr Amodau. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal drwy rannu adrannau'r Amodau yn grwpiau fel a ganlyn: ABC, DEF a GHI. Nid ydym yn credu bod angen cynnal adolygiad penodol o adran J oherwydd hon yw'r adran sy'n cynnwys diffiniadau termau a ddefnyddir ym mhob un o'r Amodau. Fodd bynnag, caiff yr adran hon ei diweddarau ar ddiwedd y broses adolygu, cyn ymgynghori ar unrhyw newidiadau yr adnabuwyd. Bydd pob grŵp yn ffurfio cyfran o'r adolygiad, a bydd gan bob cyfran amserlen o dri i bedwar mis, a byddwn yn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw gysylltiadau rhwng y cyfrannau drwy gydol yr adolygiad.



Y bwriad yw cynnal yr adolygiad rhwng hydref 2017 a hydref 2018. Ar ôl hynny, rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos o hyd ar unrhyw newidiadau posibl i'r Amodau, gyda golwg ar gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Amodau yn ystod gwanwyn 2019 a'u rhoi ar waith o fis Medi 2019.

Fel rhan o'r adolygiad, rydym yn ceisio eich barn ar ba Amodau neu grwpiau o Amodau sydd o ddiddordeb arbennig i chi neu rydych o'r farn y dylem eu blaenoriaethu, a'ch rhesymau dros hyn. I hwyluso hyn, rydym wedi darparu holiadur ar-lein syml ar Amodau A, B ac C i chi ei gwblhau. Mae'r holiadur ar-lein ar gael ar ein gwefan [yma](#). Caiff holiadur tebyg ei ddsbarthu pan fyddwn yn adolygu Amodau DEF a GHI yn 2018.

A fyddech cystal ag ymateb i'r holiadur hwn drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn 31 Medi 2017. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r uchod, mae croeso i chi cysylltu â mi drwy [polisi@cymwysteraucymru.org](mailto:polisi@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir,



Kate Crabtree  
Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Polisi ac Ymchwil

